Torri'r Papur

Cysyniadau: **Cydweithio, dyfalbarhad, gwaith tîm, penderfyniad.**

Amcan: **Dysgu cydweithio a rhannu'r baich.**

Cyfarpar: **Papur sgrap A4.**

Cyflwyniad:
Mae gen i bentwr o bapur sgrap A4 yn fy llaw ac mi ydw i am ofyn i un ohonoch ddod allan i dorri'r pentwr yn ei hanner. Gwahodd un plentyn i geisio torri'r pentwr yn ddau. Rhoi cyfle i ddau neu dri o blant. Ar ôl i bob un ohonyn nhw fethu torri'r papur cyfle iddyn nhw wrando ar stori:

Stori:

Un tro roedd gan rhyw ddyn bump o feibion cryfion ond mi oedden nhw drwy'r amser yn dadlau â'i gilydd ac yn anghydweld ac yn ffraeo efo'i gilydd. Dywedodd y tad fod yn rhaid iddyn nhw weithio efo'i gilydd, cydweithio. Ond doedden nhw'n gwrando dim. Dim ond dal i ffraeo ymhlith ei gilydd.

Un diwrnod dyma'r tad yn gofyn iddyn nhw ddod i'r buarth a dangosodd fwndel o frigau iddyn nhw. Gofynnodd i'r mab hynaf dorri'r bwndel yn ddau. Gofynnodd i'r ail fab ac wedyn i'r trydydd, y pedwerydd a'r pumed. Ond doedd yr un ohonyn nhw'n gallu torri na hyd yn oed yn gallu plygu'r bwndel o goed.

Yna, dyma'r tad yn agor y cortyn oedd yn dal y bwndel efo'i gilydd a rhoi brigyn fesul un i'r meibion.

'Dyma gyfle i chi dorri un brigyn ar y tro,' meddai'r tad. Cymerodd pob un o'r meibion un brigyn yr un a llwyddodd pob un ohonyn nhw i dorri'r brigyn yn hawdd. Meddai'r tad wrthyn nhw, 'Petaech chi'n stopio ffraeo ac anghydweld a dechrau gweithio efo'ch gilydd, cydweithio, yna mi fyddech chi'n gallu gwneud mwy o waith. Mae'n rhaid i chi ddysgu gweithio efo'ch gilydd a helpu eich gilydd os ydych chi am fod yn gryf.'

Trafodaeth bellach:

● Ar ôl gwrando ar y stori yna sut ydyn ni'n mynd i dorri'r pentwr papur? Rhannu'r papur, tair neu bedair tudalen i bob plentyn. Bydd y plant yn gweld drostyn nhw'u hunain bod y dasg yn haws. Maen nhw wedi rhannu'r gwaith. Gellir cyfeirio at yr hyn sy'n digwydd mewn ysgol. Er bod pennaeth ymhob ysgol, nid y pennaeth ar ei ben ei hun sy'n rhedeg ysgol. Mae athrawon yn cynorthwyo, mae staff y gegin a'r glanhawyr, y rhieni a'r plant a'r llywodraethwyr i gyd yn rhan o fywyd yr ysgol a phob un yn rhoi ei gyfraniad.

● Holi'r plant am weithgareddau eraill sy'n gofyn am gyfraniad tîm. Tîm pêl-droed, rygbi, drama, clocsio, dawnsio, cerddorfa.

● Ydych chi wedi meddwl am y corff? Mae pob rhan yn cydweithio.

● Mae Paul, un o ffrindiau Iesu Grist, yn dweud bod gan bob un ohonom un corff gyda rhannau gwahanol:
Mae'r corff yn uned er bod iddo lawer o rannau gwahanol, ac mae'r holl rannau gwahanol gyda'i gilydd yn gwneud un corff ... Petai pob rhan o'r corff yr un fath â'i gilydd, fyddai'r corff ddim yn bod! Mae angen llawer o wahanol rannau i wneud un corff.

1 Corinthiaid 12:12, 19-20 beibl.net

● Gellir trafod, yn fyr, gwahanol rannau o'r corff, e.e. y llygad yn gweld, y glust yn clywed, y tafod yn blasu.

Emyn: Estyn dy law, fy ffrind: Mwy o Glap a Chân 46

Munud i feddwl:

Ni all unigolyn ennill y gêm ar ei ben ei hun. Pele

Myfyrdod/Gweddi:

Mae'n bwysig ein bod yn dysgu cydweithio a rhannu'r baich. Dysgu gwneud ein rhan a'i wneud y gorau medrwn. Amen.